

Adroddiad Llywodraethwyr Blynyddol 2020/21

1) Y Corff Llywodraethu:

Enw	Categori	Dyddiad Cychwyl	Dyddiad Gorffen
Colin Bell	Awdurdod Lleol (co-opted AR, DTh)	01.01.18	31.12.21
Arwel Roberts	Awdurdod Lleol	01.01.18	31.12.21
Dafydd Thomas	Awdurdod Lleol	01.01.18	31.12.21
Susan Williams	Rhieni	01.01.18	31.12.21
Gareth Lewis	Rhieni	01.01.18	31.12.21
Claire Douch	Rhieni	05.02.19	04.02.22
Claire Huband	Rhieni	01.01.18	25.09.20
Lynne Roberts	Rhieni	17.11.20	17.11.24
Adrienne Edwards	Awdurdod Bach	01.01.18	25.09.20
Alan Williams	Awdurdod Bach	16.10.20	15.10.24
Carys Griffiths	Sylfaen	01.01.18	31.12.21
Neil Ridings	Sylfaen	01.01.18	31.12.21
Ailia Lewis	Sylfaen	01.01.18	31.12.21
Holly Edwards	Staff Addysgu	01.01.18	31.12.21
Karen Davies	Staff Cefnogol	01.01.18	31.12.21
Owain Roberts	Pennaeth (Ex officio)	01.09.19	
Carol Kelsall	Clerc	27.11.19	

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Colin Bell, 57 Trearddur Road, Trearddur Bay, Holyhead, LL65 2UE

Clerc y Llywodraethwyr: Mrs Carol Kelsall

Etholir rhieni-lywodraethwyr gan rieni disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol. Pan fo cyfnod rhiant fel llywodraethwr yn dod i ben, mae'r ALL yn trefnu i enwebiadau gael eu gwneud, ac yn trefnu pleidlais os oes angen. Mae gan rieni'r hawl i gael eu hail-ethol cyn belled â bod ganddynt blentyn ar gofrestr yr ysgol ar amser yr etholiad.

2) Cyfarfod Rhieni

Mae hwn yn darparu cyfle i rieni holi Llywodraethwyr ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol neu unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ysgol a sut maent wedi ymgymryd â'u dyletswyddau o amgylch rhedeg yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-21. Bydd y cyfarfod rhieni blynyddol yn cael ei gynnal am 4:30pm ar 14/2/22 yn Ysgol Cybi os oes o leiaf 30 o rieni disgyblion cofrestredig neu 10% o rieni yn gofyn am un. Byddai'r agenda fel a ganlyn:

- i) Croeso gan Gadeirydd y Llywodraethwyr.
- ii) Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.
- iii) Ymatebion y Llywodraethwyr i gwestiynau ysgrifenedig a dderbynnir.
- iv) Cynnig unrhyw ddatrysiadau i'r CLI eu hystyried yn eu cyfarfod nesaf.

Os dymunwch ofyn i gyfarfod gael ei gynnal, ysgrifennwch at y Pennaeth erbyn 2/2/22 fel y gellir gwneud trefniadau addas. Dylid cyflwyno unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig gan gynnwys enw llawn a chyfeiriad y rhiant i Gadeirydd y Llywodraethwyr (c/o yr ysgol) erbyn 2/2/22.

Gellir gofyn am gyfarfodydd ar amseroedd eraill yn y flwyddyn ar gais ac yn unol â gweithdrefnau a nodir gan Lywodraeth Cymru. Gall y Pennaeth roi cyngor ar y broses hon. Bydd copi llawn o'r adroddiad hwn gan gynnwys yr atodiadau yn cael ei ddarparu i'r holl lywodraethwyr, ac i unrhyw un sy'n gofyn am Adroddiad Llawn y Llywodraethwyr i Rien. Bydd pob rhiant yn derbyn crynodeb o'r adroddiad (Atodiadau: Dyranid Cyllideb Ysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21).

Nid oedd unrhyw gynhigion gan rieni y llynedd.

3) Ethol Rhiant-lywodraethwyr

Gadawodd dau lywodraethwr eu safleoedd yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-21, gan arwain at enwebu'r Cynghorydd Alan Williams a hefyd enwebu ac ethol Lynne Roberts fel rhiant-lywodraethwr.

4) Datganiad ariannol

Mae amlinelliad o'r gyllideb ysgol ynghlwm â'r fersiwn llawn o'r adroddiad hwn, ac mae ar gael i'r sawl sy'n derbyn y crynodeb ar gais. Mae'n cynnwys penawdau penodol sy'n dangos ein dyraniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyllidol bresennol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi'i chydbwyso drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a gariwyd ymlaen. Oherwydd y pandemig COVID-19, gohiriwyd y digwyddiadau ysgol blynyddol arferol, gan arwain at gyfleoedd yn cael eu colli i rieni ac/neu'r gymuned ehangach gyfrannu yn ariannol tuag at yr ysgol. Ni wnaeth yr ysgol unrhyw daliadau i aelodau'r Corff Llywodraethu am gostau yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-21.

5) Canlyniadau

Ni dderbyniwyd canlyniadau ac/neu ddata cymharol cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2020-21. Cafodd cyfnod clo ysgolion cenedlaethol hanner ffordd drwy'r flwyddyn ysgol oherwydd y pandemig COVID-19 effaith ar allu pob ysgol i bennu asesiadau diwedd blwyddyn ysgol/cyfnod allweddol.

6) Presenoldeb dros y flwyddyn academiaidd flaenorol: (Targed 95%)

2020/21				
	Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf	Cyfartaledd
Blwyddyn 1-6	89%	93.2%	93.2%	91.3%
Absenoldebau Awdurdodedig	9.5%	3.1%	4.6%	6.7%
Absenoldebau Anawdurdodedig	1.4%	3.2%	2.2%	2.0%

* (Absenoldebau oherwydd achosion tybiedig neu wedi'u cadarnhau o COVID19 heb eu cynnwys)

Parhaodd y pandemig COVID-19 i gael effaith arwyddocaol ar ddata presenoldeb yn ystod y flwyddyn ysgol 2020-21. Yn benodol –

- Ansicrwydd cyffredinol ynghylch bygythiad y pandemig gan arwain at gynnydd mewn absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig.
- Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru a'r AALI ar ddefnyddio codau absenoldeb ysgol yn amrywio yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ymateb i lefel bygythiad a oedd yn newid yn barhaus. Arweiniodd hyn at ddarlun rhy gymhleth, ac arweiniodd at yr ysgol yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Lles y Sir i nodi plant a theuluoedd y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

7) Cyrchfan ymadawyr ysgol:

60 o ddisgyblion wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2021. Aeth 56 i Ysgol Uwchradd Caergybi, 1 i Ysgol Uwchradd Bodedern, 2 i Ysgol Friars ac 1 i Ysgol y Bont.

8) Camau gweithredu a gymerwyd i datblygu cysylltiadau â'r gymuned:

Er bod y cyfyngiadau a orfodwyd ar ysgolion oherwydd y pandemig COVID-19 yn llesteirio rhai o ymweliadau blynyddol pellach i ffwrdd arferol yr ysgol, roeddem yn gallu manteisio ar rai cyfleoedd yn ein hardal leol. Ymhlith yr ymweliadau roedd: Nofio'n Ddiogel – Bae Trearddur, Eglwys Sant Cybi, Parc Garreglwyd ac ymweliad Blwyddyn 6 ag Ysgol Uwchradd Caergybi. Sefydlodd yr ysgol Gyngor Ysgol Eglwys yn cynnwys disgyblion o Flynnyddoedd 3-6 a chynrychiolwyr o Eglwys Sant Cybi. Arweiniodd hyn at ddisgyblion yn gweithio ar brosiect ochr yn ochr â'r banc bwyd lleol, a hefyd yn ysgrifennu llythyrau byr a chardiau at breswylwyr cartrefi gofal ac eraill yn y gymuned leol yn dymuno'n dda iddynt yn ystod cyfnodau heriol. Yn ystod

cyfnod y pandemig, gweithiodd yr ysgol gyda grŵp lleol i adnabod a dosbarthu parseli bwyd i deuluoedd lleol a oedd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae cylch gofal bugeiliol ardal y Weinyddiaeth yn cael ei rannu gyda'r gymuned ehangach drwy ein Facebook ysgol. Parhaodd swyddog cyswllt ysgolion yr heddlu i weithio gyda'r ysgol yn ddigidol, gan gynnal sesiynau gyda disgyblion o Flynyddoedd 2-6 yn trafod materion fel seiberddiogelwch, bwlio a chadw'n ddiogel yn y gymuned.

9) Targedau presennol yr ysgol:

Nodir isod y prif flaenoriaethau yn y Cynllun Gwella Ysgol presennol:

(1) Codi safonau Cymraeg ar draws yr ystod oedranau a'u hatgyfnerthu ymhellach drwy gamau i ddatblygu ethos Gymreig cymuned yr ysgol

(2) Parhau i ddatblygu arddull addysgu'r holl staff addysgu i gydymffurfio'n effeithiol ag egwyddorion 'Asesu ar gyfer Dysgu'

(3) Parhau i ddatblygu darpariaeth ysgol gyfan tuag at fodloni gofynion 4 Diben Cwricwlwm i Gymru.

(4) Datblygu strwythurau arwain a rheoli effeithiol ar lefel ysgol gyfan.

(5) Datblygu strwythurau ac arferion lles ysgol o ansawdd uchel sy'n cefnogi disgyblion, Rhieni a staff addysgu yn llwyddiannus.

(6) Darparu gweithdrefnau Anghenion Dysgu Ychwanegol rhagorol sy'n diwallu anghenion pob disgybl yn llawn, ac sy'n bodloni gofynion y 'Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol' newydd.

10) Chwaraeon:

Oherwydd cyfyngiadau COVID-19, effeithiwyd yn ddifrifol ar y cyfleoedd a ddarperir i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau neu gystadlaethau chwaraeon all-gwricwlaidd. Datblygwyd ffocws ysgol ar agweddau o iechyd a lles yng ngwaith thematig y dosbartha defnydd o feysydd allanol a byddant yn cael eu cryfhau ymhellach yn y flwyddyn i ddod, h.y. cyfeiriannu, sesiynau CELS, garddio.

11) Camau gweithredu i adolygu polisiau ysgol:

Adolygir pob polisi ysgol un ai'n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd. Mae'r holl bolisiau ysgol yn y broses o gael eu trosglwyddo i wefan yr ysgol i fod ar gael i bawb.

12) Dyddiadau tymor ar gyfer y flwyddyn gyfredol:

Diwrnod cyntaf tymor yr hydref	01/09/21	Diwrnod olaf cyn y Pasg	08/04/22
Diwrnod olaf cyn hanner tymor	22/10/21	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Pasg	25/04/22
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl yr hanner tym	01/11/21	Gŵyl y Banc	02/05/22
Diwrnod olaf cyn y Nadolig	22/12/21	Diwrnod olaf cyn yr hanner tymor	27/05/22
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl y Nadolig	06/01/22	Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor	06/06/22
Diwrnod olaf cyn hanner tymor	18/02/22	Diwrnod olaf yn yr ysgol cyn gwyliau'r ha	20/07/22
Diwrnod cyntaf yn ôl ar ôl hanner tymor	28/02/22		

13) Diweddariadau Prosbectws Ysgol:

Mae copïau o brosbectws yr ysgol ar gael i bawb ar wefan yr ysgol. Mae copïau caled hefyd ar gael ar gais. Gwnaethpwyd ychydig iawn o ddiwygiadau i'r fersiwn blaenorol.

- Manylion y gweithgareddau all-gwricwlaidd
- Manylion trefniadau dosbarth
- Enwau a chyfrifoldebau staff dysgu ysgolion

14) Trefniadau Cwricwlaidd:

Mae'r ysgol yn gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion o 3 oed tan ddiwedd Blwyddyn 2, ac yn dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 3-6. Yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, cymerwyd camau i ymgorffori'n raddol rai agweddau ar 'Gwricwlwm i Gymru' (statudol o fis Medi 2022) gan gynnwys mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Yn ystod blwyddyn ysgol 2020-21, addysgwyd disgyblion mewn 14 dosbarth llawn amser, 2 ddsbarth meithrin rhan-amser a dau ddsbarth anogaeth - un ar gyfer pob cyfnod allweddol.

15) Manylion Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:

Mae gan lawer o blant anghenion ychwanegol o fewn maes o'r cwricwlwm neu anghenion meddygol ar ryw adeg yn eu gyrfa yn yr ysgol. Weithiau rydym yn ymwybodol o hyn yn gynnar yn ystod cyfnod disgybl gyda ni neu hyd yn oed cyn iddynt ymuno, ac ar adegau eraill codir pryder yn ystod eu haddysg. Gall rhai anghenion fod yn fwy difrifol nag eraill. Yn Ysgol Cybi, caiff anghenion ychwanegol plant eu nodi fel arfer gan yr athro dosbarth neu gydweithiwr drwy arsylwi, profi, asesu ac ymgynghori â rhieni, cofnodion ysgol blaenorol ac asiantaethau iechyd. Ysgrifennwyd ein Polisi Anghenion Ychwanegol gan ystyried y Cod Ymarfer ADY Cenedlaethol. Ymgynghorir â rhieni a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r gwasanaethau cymorth.

16) **Iaith:**

Daw'r rhan fwyaf o'n disgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r brif iaith lafar. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn dilyn polisi iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol drwy asesu plant yn erbyn meini prawf iaith gyntaf fel eu bod yn datblygu i fod yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith. Rydym yn cael ein hystyried yn ysgol ddwyieithog. Mae'r ysgol yn dilyn polisi trochi Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac felly dyma'r brif iaith a siaredir yn yr ystafell ddosbarth, gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 2. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae plant yn derbyn canlyniadau asesu statudol yn seiliedig ar ddatblygiad y Gymraeg. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mae plant yn derbyn asesiadau statudol yn y ddwy iaith. Anogir hwyrddyfodiaid sy'n ymuno â CA2 o ysgol arall lle nad yw'r Gymraeg wedi'i chyflwyno o'r blaen i dreulio tymor yn uned Gymraeg y sir sydd wedi'i lleoli ar safle ein hysgol, gan ymgymryd â chwrs trochi Cymraeg.

17) **Lles:**

Mae lles wedi bod yn flaenoriaeth i'r ysgol yn ystod y flwyddyn, ac rydym wedi gweithio'n agos gyda Swyddog Lles y sir i gefnogi disgyblion a theuluoedd yn ystod cyfnodau digynsail. Ychydig iawn o ymwelwyr a gafodd ganiatâd i weithio gyda disgyblion ar y safle, fodd bynnag, pan ystyriwyd bod y ddarpariaeth yn cefnogi lles disgyblion, rhoddwyd asesiadau risg llym ar waith i ddarparu'r cyfleoedd hynny. h.y. 'Sesiynau CELS' sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, 'SHEP' sy'n darparu darpariaeth gwyliau'r haf gan gynnwys prydau iach, 'Darpariaeth Cerddoriaeth William Mathias' gan ddatblygu sgiliau pwysig a chefnogi lles meddyliol. Cyflwynir addysg iechyd hefyd mewn gwrsi ledled yr ysgol. Mae'r pynciau dan sylw yn cynnwys pwysigrwydd cadw'n heini ac yn actif yn ogystal â bwyta ac yfed deiet iach a chytbwys. Mae gan yr ysgol bolisi o ffrwythau yn unig fel byrbrydau amser chwarae. Rydym yn tyfu ffrwythau a llysiau ac fe'u defnyddir yn aml mewn prosiectau dosbarth.

Mae gan bob adain o'r ysgol gyfleusterau toiled i'w defnyddio gan y disgyblion. Darperir cyfleusterau cymysg yn adran y babanod, a chyfleusterau ar wahân ar gyfer plant hŷn. Caiff y toiledau eu glanhau'n ddyddiol gan staff hyfforddedig.

Derbynnir disgyblion ag anabledau i'r ysgol yn unol â pholisi mynediad yr ALI. Gwahoddir rhai plant oed meithrin i fynychu uned cyn-ysgol ABC ar gyfer asesiad arbenigol cyn dechrau mewn addysg llawn amser. Cynhelir asesiadau risg a chynlluniau hygrychedd er budd plant sydd â phroblemau symudedd.

<u>CYLLIDEB 2021/2022</u>		CYLLIDEB	ADDASIADAU	CYLLIDEB
YSGOL CYBI		21/22		TERF 21/22
<u>BUDGET 2021/2022</u>		OUTTURN	ADJUSTMENT	OUTTURN
		BUDGET		BUDGET
		21/22		21/22
EMPLOYEES=	GWEITHWYR=	£	£	£
SALARY AND WAGES-	CYFLOGAU-			
TEACHERS	ATHRAWON	1,110,630	-39,580	1,071,050
SUPPLY TEACHERS-	ATHRAWON LLANW-			
INSURANCE	PREMIWM	53,700		53,700
OTHER SUPPLY	LLANW ARALL	0		0
SPECIAL NEEDS	ANGHENION ARBENNIG	40,960	-40,960	0
SUPPORT STAFF-	STAFF ATEGOL-			
SUPPORT STAFF-LUNCHTIME	STAFF ATEGOL-AMSER CINIO	13,670		13,670
TEACHING ASSISTANTS	CYMORTHYDDION ADDYSGU	119,610		119,610
CLERICAL SUPPORT	CYMORTH GWEINYDDOL	22,350		22,350
CARETAKER	GOFALWR	0		0
INTEGRATION STAFF	STAFF INTEGREIDDIO	361,380		361,380
OTHER COSTS-	COSTAU ERAILL-			
ADVERTISING	HYSBYSEBU	1,410		1,410
PREMISES=	ADEILADAU=			
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Local Mgt)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Rheolaeth Leol)	15,190		15,190
REPAIR & MTCE OF BUILDINGS (Fair Funding)	CYNNAL A CHADW ADEILADAU (Ariannu Teg)	20,080		20,080
ENERGY COSTS-	COSTAU YNNI-			0
ELECTRICITY	TRYDAN	9,370		9,370
GAS / OIL	NWY / OLEW	17,730		17,730
WATER	DWR	1,380		1,380
CLEANING CONTRACT	CYTUNDEB GLANHAU	55,330		55,330
GROUND MAINTENANCE	CYNNAL TIR	9,180		9,180
CLEANING MATERIALS	DEFNYDDIAU GLANHAU	1,160		1,160
FIRE FIGHTING EQUIPMENT	OFFER YMLADD TAN	380		380
RATES	TRETHI	66,590		66,590
SUPPLIES AND SERVICES=	CYFLENWADAU A GWASANAETHAU=			
CAPITATION	LWFANS Y PEN	10,430	2,950	13,380
FURNITURE	DODREFN	0		0
POSTAGES	POST	320		320
TELEPHONES	FFON	1340		1,340

BROADBAND	BAND LLYDAN	2,120		2,120
CYNNAL	CYNNAL	4,180		4,180
SWIMMING POOLS	PYLLAU NOFIO	5,890		5,890
LIBRARY	LLYFRGELL	4,200	-4,200	0
ARCHIVES	ARCHIFAU	740	-740	0
MUSIC	CERDD	6,020	-6,020	0
ITEMS FOR FURTHER DELEGATION:-	EITEMAU AR GYFER DATGANOLI PELLACH:-			
PERSONNEL AND PAYROLL	PERSONEL A CHYFLOGAU	11,700		11,700
FINANCIAL ADVICE	CYNGOR CYLLIDOL	2,840		2,840
PUPIL INFORMATION	GWYBODAETH DISGYBLION	2,660		2,660
ADMINISTRATIVE (TRANSLATION)	GWEINYDDOL (CYFIEITHU)	690		690
ADMINISTRATIVE (SICKNESS)	GWEINYDDOL (SALWCH)	1,070		1,070
ORDERS, PAYMENTS, INCOME	ARCHEBION, TALIADAU, INCWM	3,760		3,760
ADMINISTER REPAIR & MTCE OF BUILDINGS	GWEINYDDU CYNNAL A CHADW ADEILADAU	4,420		4,420
INTEGRATION - CONTINGENCY	INTEGREIDDIO - CRONFA WRTH GEFN	41,940		41,940
SCHOOL MEALS	CINIO YSGOL	133,980		133,980
TOTAL EXPENDITURE	CYFANSWM GWARIANT	2,158,400	-88,550	2,069,850
INCOME	INCWM	15,000		15,000
TOTAL NET BUDGET	CYFANSWM CYLLIDEB NET	2,143,400	-88,550	2,054,850
ALLOCATION (not including safety net)	DYRANIAD (heb gynnwys rhwyd diogelu)	1,905,880		1,905,880
LONG TERM DIFFERENCE	GWAHANIAETH TYMOR HIR	-237,520	88,550	-148,970
SAFETY NET (+ / -)	RHWYD DIOGELU (+ / -)	0		0
FOUNDATION PHASE GRANT	GRANT CYFNOD SYLFAEN	103,960		103,960
ADD TO RESERVES	YCHWANEGU I ARIAN WRTH GEFN			0
USE OF BALANCES	DEFNYDDIO BALANSAU		45,010	45,010
DIFFERENCE	GWAHANIAETH	-133,560	133,560	0

0

0